

Trin dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint drwy ddefnyddio radiotherapi lleoledig

*Mae arweiniad
Techlechyd NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau newydd
mewn arfer clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio math o radiotherapi lleoledig a elwir yn bracitherapi yn y GIG i drin pobl â dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae'r arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Gall ymyriad olygu prawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbytai) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n cynnig gwerth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth ar gael hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod

i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 6.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Ar hyn o bryd nid oes digon o dystiolaeth ynghylch pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio ac mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn ymwneud â niferoedd bach o gleifion yn unig. Ceir cymhlethdodau cydnabyddedig a pherygl posibl o niwed i'r retina (yr ardal sy'n sensitif i olau yng nghefn y llygad) o ganlyniad i gael ei amlygu i ymbelydredd.

Am y rhesymau hyn mae NICE wedi dweud mai dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil (a elwir hefyd yn dreial clinigol) y dylai'r driniaeth hon gael ei chyflawni. Dylai'r ymchwil ystyried pa un a yw'r driniaeth yn arafu datblygiad dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint ac a all leihau'r angen am driniaethau eraill. Dylai'r ymchwil hefyd ystyried canlyniadau hirdymor.

Sylwadau eraill gan NICE

Mae nifer o dreialon clinigol yn mynd rhagddynt.

Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint.

Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha driniaethau eraill sydd ar gael.

Trin dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint drwy ddefnyddio radiotherapi lleoledig

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'bracitherapi epiretinol ar gyfer dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint'.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Yn y llygad, mae'r retina yn gorchuddio rhan fewnol wal gefn pelen y llygad a dyma'r haen o gelloedd sy'n gyfrifol am greu golwg. Mae

dirywiad macwlaidd yn effeithio ar y rhan o'r retina sy'n gyfrifol am olwg manwl (y macwla). Gan fod dirywiad yn digwydd ymhlith pobl hŷn fel arfer, caiff ei alw'n 'ddirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig â henaint' hefyd neu 'age-related macular degeneration' neu 'AMD' yn Saesneg. Mae dau fath - 'sych' a 'gwlyb'. Achosir y ffurf wlyb gan waedu yng nghefn y llygad a achosir gan dwf pibellau gwaed newydd, a gellir colli golwg yn gynt nag yn y ffurf sych.

Ymhlith y triniaethau presennol ar gyfer dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint mae triniaeth laser, therapi ffotodeinamig a phigiadau o gyffuriau a elwir yn ffactorau twf endothelaidd gwrthfasgwlaidd, sy'n gweithio drwy flocio sylwedd sy'n achosi i bibellau gwaed newydd dyfu yn y llygad. Ar gyfer pobl â dirywiad macwlaidd gwlyb datblygedig sy'n gysylltiedig â henaint, gall chwyddwydrau, ymarferion i'r llygad a elwir yn 'hyfforddiant gweld ecsentrig', a gosod lensys artiffisial fod yn ddefnyddiol hefyd.

Nod y driniaeth hon yw arafu twf y pibellau gwaed sy'n achosi dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint drwy drin y pibellau gwaed annormal sy'n gollwng gydag ymbelydredd. Caiff y driniaeth ei chyflawni fel arfer gyda'r claf o dan anesthetig lleol, a rhoddir triniaeth ffactorau twf endothelaidd gwrthfasgwlaidd ar yr un pryd fel arfer. Yn gyntaf bydd y llawfeddyg yn gwneud toriadau bychan yn rhan wen pelen y llygad i dynnu'r hylif gwydrog, sef yr hylif clir fel jeli, o'r tu mewn i'r llygad. Gelwir y driniaeth hon yn fitrectomi. Gosodir stiliwr i mewn i belen y llygad, a'i symud i'r safle cywir. Yna caiff ymbelydredd ei gludo drwy'r stiliwr. Mae dos yr ymbelydredd yn llai na'r dos a geir yn ystod pelydr-X arferol o'r frest. Ar ôl y driniaeth caiff pwythau amsugnadwy eu defnyddio a rhoddir clwt ar y llygad. Fel arfer rhoddir gwrthfotigau a steroidau er mwyn atal haint a llid rhag datblygu.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gall eich meddyg gynnig y driniaeth hon i chi (a elwir hefyd yn dreial clinigol).

Argymhellodd NICE y dylid casglu rhai manylion am bob claf sy'n cael y driniaeth hon yn y DU. Efallai y bydd eich meddyg yn gofyn i chi a all manylion eich triniaeth gael eu defnyddio yn y modd hwn. Bydd eich meddyg yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am hyn.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis cael
y driniaeth hon, cael
triniaeth wahanol,
neu beidio â chael
triniaeth
o gwbl.*

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar ddwy astudiaeth o'r driniaeth hon.

Pa mor dda mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn un astudiaeth cafodd 34 o gleifion eu trin ag un o ddau ddos gwahanol o ymbelydredd ac archwiliwyd eu golwg ar ôl blwyddyn. Roedd 50% a gafodd y dos is a 63% a gafodd y dos uwch yn gweld yn fwy clir (roeddent yn gallu gweld un neu ragor o lythrennau yn well mewn prawf llygaid). Roedd 21% o'r cleifion a gafodd eu trin â'r dos uwch yn gweld mwy na 15 o lythrennau yn fwy clir. Ni wellodd golwg yr un o'r cleifion a gafodd eu trin â'r dos is gymaint.

Mewn astudiaeth arall, cafodd 34 o gleifion eu trin â'r driniaeth ynghyd â phigiadau ffactorau twf endothelaidd gwrthfasgwlaidd. Ar ôl cael y driniaeth roeddent yn gweld 8.9 llythyren yn fwy clir yn y prawf llygaid. Roedd 13 o'r cleifion hyn yn gweld llawer yn well - tair llinell neu ragor yn fwy clir ar y prawf llygaid. Ar ôl 36 mis, roedd 19 o'r cleifion yn gweld 3.9 o lythrennau ar gyfartaledd yn fwy clir, ac roedd pedwar o'r cleifion hyn yn gweld 15 o lythrennau neu ragor yn fwy clir.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai'r prif ffactorau llwyddiant oedd cadw golwg clir, nifer y piguadau ffactorau twf endothelaidd gwrthfasgwlaidd sydd eu hangen, a pha mor hir y mae'n cymryd i'r dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint ddychwelyd.

Risgiau a phroblemau posibl

Yn yr astudiaeth gyntaf o 34 o gleifion a gafodd eu trin â'r driniaeth a phigiadau ffactorau twf endothelaidd gwrthfasgwlaidd, datblygodd cataractau ymhlith 25% o'r cleifion ar ôl 12 mis, ymhlith 50% o'r cleifion ar ôl 24 mis ac ymhlith 54% o'r cleifion ar ôl 36 mis. Cafodd un claf niwed i'r retina yn gysylltiedig ag ymbelydredd, a welwyd ar ôl 36 mis. Nid effeithiodd hyn ar olwg y claf, ac nid oedd wedi gwaethygu 43 mis ar ôl y driniaeth.

Yn yr astudiaeth arall o 34 o gleifion a gafodd eu trin â'r driniaeth yn unig, flwyddyn ar ôl y driniaeth nid oedd yr un o'r cleifion a gafodd eu trin wedi cael unrhyw sgîl-ffeithiau o ganlyniad i'r driniaeth ymbelydredd.

Cafodd tri chlaf allan o gyfanswm o 68 o gleifion yn y ddwy astudiaeth rwyg yn y retina.

Cafodd dau glaf allan o 34 a gafodd eu trin â'r driniaeth a phigiadau ffactorau twf endothelaidd gwrthfasgwlaidd bwysedd uwch yn eu llygad, a all fod yn ffactor risg ar gyfer glawcoma.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod cataractau, gwaedu y tu mewn i'r llygad, y retina yn dod yn rhydd, haint, a niwed i'r retina a achoswyd gan y driniaeth ymbelydredd i gyd yn broblemau posibl. Mewn egwyddor gallai problemau eraill gynnwys canser a niwed i'r nerf optig a achoswyd gan y driniaeth ymbelydredd.

Rhagor o wybodaeth am ddirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi hefyd. I gael manylion am

holl ganllawiau NICE ar ddirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig â henaint, ewch i [wefan NICE](#).

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ar atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn holi barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'bracitherapi epietrol ar gyfer dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn sydd wedi'u hanelu at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn <http://guidance.nice.org.uk/HTG279>

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

Level 1A, City Tower, Piccadilly Plaza, Manchester M1 4BT; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8471-8

N2713 December 2011

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2011. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.